OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1648 (Cy.129)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Mehefin 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Mehefin 2005* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 216(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005 ac fe ddaw i rym ar 30 Mehefin 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004

**2.** Ychwaneger at y rhestr o gyrff yn Adran 1, Rhan I o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004(**3**) y cyrff canlynol (yn eu lle priodol yn ôl trefn yr wyddor), sef cyrff sy'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn dod o dan adran 216(3) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988:

(1) Kensington College of Business;

(2) London City College;

(3) School of Technology and Management(**4**).

(**1**) 1988 p.40.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2004/3095 (Cy.269).
(**4**) Is-adran o London School of Commerce.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mehefin 2005

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu tri chorff at y cyrff sy'n cael eu rhestru yn Adran 1, Rhan 1 o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004. Nid yw corff sy'n cael ei restru felly yn gorff cydnabyddedig o fewn adran 216(4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1998 ond yn un y mae'n ymdddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod naill ai

(a) yn darparu cwrs sy'n baratoad at radd sydd i'w rhoi gan gorff cydnabyddedig o'r fath ac a gymeradwyir gan y corff hwnnw neu ar ran y corff hwnnw; neu

(b) yn goleg, ysgol, neuadd neu sefydliad prifysgol arall sy'n gorff cydnabyddedig o'r fath.

Ystyr "cyrff cydnabyddedig" yw prifysgolion, colegau neu gyrff eraill a awdurdodir gan Siarter Frenhinol neu gan Ddeddf Seneddol neu o dan Ddeddf Seneddol i roi graddau a chyrff eraill a ganiateir am y tro gan y cyrff hynny i weithredu ar eu rhan wrth roi graddau.